

CYNNAL

POLISI DIM YSMYGU

Mabwysiadwyd – Mai 2007



POLISI DIM YSMYGU

1.0 RHAGARWEINIAD

- 1.1 Fel cyflogwr, mae CYNNAL wedi mabwysiadu'r Polisi Dim Ysmygu hwn er mwyn gwarchod hawliau gweithwyr y cwmni mewn perthynas ag ysmygu yn y lle gwaith.
- 1.2 I'r perwyl hwn mae gan bob aelod o staff yn y cwmni GYFRIFOLDEB i sicrhau bod y polisi yn gweithredu fel y bwriadwyd iddo wneud. Bydd gan Reolwyr sy'n gyfrifol am adeiladau gyfrifoldebau ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Adeiladau Di-fwg ac ati (Cymru) 2007, a bydd angen i arweinwyr unedau sicrhau bod eu staff, defnyddwyr gwasanaeth, cleientiaid ac eraill yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau.
- 1.3 Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith 1974 yn rhoi dyletswydd benodol ar gyflogwr i: "Provide and maintain a safe working environment which is so far as reasonably practicable, safe, without risk to health and adequate as regards facilities and arrangements for their welfare at work"

Mae deddfwriaeth newydd dan y Rheoliadau Adeiladau Di-fwg ac ati (Cymru) 2007 yn awr yn golygu bod rhaid i'r mwyafrif llethol o lefydd gweithio caeëdig fod yn ddi-fwg. Daeth y ddeddfwriaeth i rym am 6.00am ar 2 Ebrill 2007.

O gofio'r dyletswyddau statudol hyn, mae CYNNAL yn amcanu at wella iechyd a diogelwch ei weithwyr yn y lle gwaith trwy sicrhau nad ydynt yn agored i fwg tybaco amgylcheddol.

- 1.4 Bydd un o bob dau o ysmygwyr tymor hir yn marw'n gynamserol o ganlyniad i ysmygu – bydd hanner y rhain yn marw yn ganol oed. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn dangos bod ysmygu yn lladd 114,000 o bobl yn y Deyrnas Gyfunol bob blwyddyn, sef un o bob pump o'r holl farwolaethau. Mae'r rhan fwyaf yn marw o dri prif glefyd sy'n gysylltiedig gydag ysmygu: cancr yr ysgyfaint, clefyd cronig ar yr ysgyfaint (bronchitis ac emffysema) a chlefyd coronaidd y galon.

Mae marwolaethau a achosir gan ysmygu bum gwaith yn uwch na 22,833 o farwolaethau yn codi o: damweiniau traffig (3,439); gwenwynu a chymryd gormod o gyffuriau (881); clefyd ar yr iau yn sgil alcohol (5,121); marwolaethau damweiniol eraill (8,570); llofruddio a dynladdiad (513); hunanladdiad (4,066); a heintiad HIV (234) yn y Deyrnas Gyfunol yn ystod 2002. Mae ysmygu yn achosi oddeutu tri deg y cant o'r holl farwolaethau a achosir gan gancr (gan gynnwys oddeutu 84% o farwolaethau o gancr yr ysgyfaint), 17% o farwolaeth clefyd y galon, ac o leiaf 80% o farwolaethau o froncitis ac emffysema.

Trwy'r byd i gyd, mae bron i 5 miliwn o bobl yn marw'n gynamserol bob blwyddyn o ganlyniad i ysmygu. Yn seiliedig ar y patrymau diweddaraf, bydd y ffigwr hwn yn codi i 10 miliwn o fewn 20 mlynedd. (Ffynhonnell: ASH).

- 1.5 Mae ysmygu goddefol, sef anadlu mwg tybaco pobl eraill, hefyd yn fygythiad i iechyd pobl sydd ddim yn ysmygu, e.e. gall achosi cosi poenus yn y llygaid, cur pen, peswch, dolur gwddf, pendro a chyfog. Gall hefyd gael effaith ar ysgyfaint pobl gydag asthma os ydynt mewn amgylchedd lle mae mwg.

2.0 AMCANION

- 2.1 Yn y cyd-destun hwn, mae CYNNAL wedi penderfynu hyrwyddo Polisi Dim Ysmygu i gryfhau ei gydymffurfiaeth gyda'r ddeddfwriaeth newydd, ac i sicrhau amgylchedd di-fwg iach ar gyfer ei holl staff a phobl eraill sy'n ymweld ag adeiladau'r cwmni.
- 2.2 Mae yna fanteision amlwg yn codi o Bolisi Dim Ysmygu megis:-
- gweithlu iachach, gyda llai o bobl yn absennol oherwydd salwch
 - gostyngiad mewn costau cynnal a chadw adeiladau
 - llai o risg tân
 - gostyngiad posib yn y premiwm yswiriant
 - llai o bobl yn cymryd 'egwyl anffurfiol' a fydd yn cael effaith ar amser gweithio a chynhyrchedd.

3.0 DATGANIAD O FWRIAD

- 3.1 Mae CYNNAL yn derbyn hawl gweithwyr i weithio mewn amgylchedd di-fwg. Felly, yn wyneb y ddeddfwriaeth newydd, ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw ran o adeiladau / eiddo'r cwmni gan gynnwys:

- swyddfeydd
- cantîn / ystafelloedd gorffwys
- toiledau
- coridorau
- pyrth a mynedfeydd
- cerbydau'r cwmni
- unrhyw adeilad y mae'r cwmni yn berchen / denant arnynt, ac sydd yn 'gaeedig neu yn sylweddol gaeedig'

Ystyrir bod adeilad yn 'gaeedig' os oes ganddo nenfwd neu do (dyfais neu strwythur sefydlog neu un y gellir ei symud), ac os yw wedi'i amgáu yn gyfan gwbl, ac eithrio y drysau, ffenestri neu goridorau, boed hynny ar sail barhaol neu dros dro.

Ystyrir y bydd adeilad yn 'sylweddol gaeedig' os oes ganddo nenfwd neu do (strwythur neu ddyfais sefydlog neu un y gellir ei symud) ond bod agoriadau yn y waliau sydd yn llai na hanner cyfanswm arwynebedd y waliau.

- 3.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr a'r rhai sy'n ymwelwyr i adeiladau CYNNAL.

Mae gan weithwyr CYNNAL a leolir mewn adeiladau a reolir gan sefydliadau eraill (megis y Cynghorau Sir) yr hawl i gael eu gwarchod rhag mwg â phobl sydd yn gweithio yn adeiladau CYNNAL.

Mae gan weithwyr CYNNAL sydd yn ymweld ag adeiladau a sefydliadau megis ysgolion gyfrifoldeb eu bod yn cydymffurfio â pholisiau ysmygu y sefydliadau hynny.

- 3.3 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â **lle** mae pobl yn ysmygu yn hytrach nag os ydynt yn ysmygwyr, a'r effaith a gaiff hynny ar gydweithwyr nad ydynt yn ysmygu. Fodd bynnag, mae'r cwmni yn cydnabod y gall rhai ysmygwyr ei chael hi'n anodd i geisio arfer gyda gofynion y polisi, ac fe wneir ymrwymiad i roi cyfleon a chymorth i staff sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

4.0 CYFRIFOLDEBAU

- 4.1 Bwriedir y bydd y polisi hwn er budd i holl weithwyr CYNNAL; fodd bynnag, mae'r cwmni yn cydnabod, os yw'r polisi hwn am lwyddo, bod raid dibynnu ar gymorth, cydweithrediad, cwrteisi ac ewyllys da pawb.
- 4.2 Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i sicrhau bod y polisi yn gweithredu fel y bwriadwyd iddo wneud.
- 4.3 I sicrhau y bydd y polisi hwn yn effeithiol, bydd raid i staff sicrhau bod ymwelwyr a chleientiaid y maent yn gyfrifol amdanynt hefyd yn glynu wrth y gofynion (ee staff sy'n rhedeg cyrsiau yn adeiladau'r cwmni).
- 4.4 Mewn sefyllfaoedd lle na ellir dibynnu ar gwrteisi ac ewyllys da, bydd achosion o dorri'r Polisi Dim Ysmygu yn cael eu trin yn unol ag amodau'r Trefniadau Disgyblu.

5.0 EFFAITH AR DDEFNYDDWYR GWASANAETH, POBL SYDD DDIM YN GWEITHIO I'R CWMNI A CHLEIENTIAID

- 5.1 Mae'r cwmni wedi mabwysiadu 'Polisi Dim Ysmygu' o fewn ei adeiladau / eiddo, ac o'r herwydd, mae'r trefniadau yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr a phobl nad ydynt yn gweithio i CYNNAL.

6.0 GWEITHREDU

- 6.1 Daw'r polisi hwn i rym am 6.00am ar 2 Ebrill 2007.
- 6.2 Fe fydd arwyddion 'Dim Ysmygu' sy'n cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth (gweler 1.2 uchod) yn cael eu gosod i hysbysu pawb sy'n mynd i mewn i adeilad / eiddo CYNNAL fod yr amgylchedd yn un di-fwg.
- 6.3 Disgwylir y bydd staff sydd yn dymuno gadael eu lle gweithio i fynd allan i ysmygu unai yn clocio gan ddefnyddio'r system 'flexy', neu gofnodi'r amseroedd, i ddangos eu bod allan o'r adeilad. Dylent hefyd hysbysu eu rheolwr llinell neu gydweithwyr eu bod ar 'dorriad ysmygu'.
- 6.4 Dylid sicrhau hefyd bod mynedfeydd i adeiladau'r cwmni yn rhydd o fwg, ac nad yw mwg ysmygu 'chwaith yn treiddio i mewn i adeiladau drwy ffenestri sydd ar agor. Gofynnir i'r rhai sy'n dymuno ysmygu gadw hyn mewn côf wrth fynd am 'dorriad ysmygu', gan gadw pellder digonol oddi wrth adeiladau.
- 6.5 Dylai biniau priodol ar gyfer bonion gael eu darparu i sicrhau bod sigarêts yn cael eu diffodd yn ddiogel a thaclus.
- 6.6 Rhoddir gwybod i bob aelod o staff bod y polisi hwn yn bodoli.